Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 04/2020

# CYNLLUNIAU LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG (LCA) A GRANT DYSGU LLYWODRAETH CYMRU (ADDYSG BELLACH) (GDLIC (AB)) AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2020/21.

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi manylion y cynlluniau LCA a GDLIC (AB) a weithredir ar sail prawf modd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2020/21. Cofiwch wneud yn siŵr bod Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cael ei ddosbarthu i'r holl staff a chydweithwyr sy'n gweinyddu'r cynlluniau.

Mae'r dyfarniadau a'r trothwyon incwm ar gyfer y cynlluniau LCA a GDLIC (AB) a weithredir ar sail prawf modd wedi'u cadw ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. I gael cymorth o dan gynlluniau LCA a GDLIC (AB), rhaid i fyfyrwyr fod yn dilyn cwrs addysg bellach cymwys hyd at lefel 3 (sy'n gyfwerth â Safon Uwch neu NVQ lefel 3), sy'n arwain at ennill cymhwyster a roddir gan gorff dyfarnu cydnabyddedig. O flwyddyn academaidd 2019/20[1] ymlaen, mae dysgwyr sydd ag anableddau dysgu, sy'n dechrau ar raglen ddysgu nad oes unrhyw ran ohoni'n achrededig, ac sy'n arwain at gyflawni rhaglen ddysgu sydd wedi ei phersonoli a ariennir gan Lywodraeth Cymru o dan raglen Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith, yn gymwys i wneud cais am gymorth LCA a GDLIC (AB), yn amodol ar fodloni'r holl feini prawf cymhwysedd eraill.

## FFURFLENNI CAIS

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r canolfannau dysgu sydd wedi mynd ati i ddarparu eu pecynnau ymgeisio LCA a GDLIC (AB) wrth inni barhau i ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil COVID-19. Mae'n hanfodol sicrhau iechyd, diogelwch, a llesiant staff a myfyrwyr wrth inni baratoi ar gyfer y tymor newydd. Rydym yn gwerthfawrogi'r holl ymdrechion y mae'r canolfannau dysgu yn eu gwneud i sicrhau bod ceisiadau'n cyrraedd myfyrwyr cyn gynted â phosibl.

Mae ffurflenni cais LCA a GDLIC (AB) ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, ynghyd â'r nodiadau canllaw, ar gael i'w lawrlwytho drwy wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru: https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ab.aspx.

Cofiwch fod gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr Cymru yn parhau i fod ychydig yn llai cyflawn na'r arfer oherwydd yr argyfwng COVID-19. Serch hynny, mae'r gwasanaeth yn gweithio'n galed i ymateb i ymholiadau ac i brosesu ceisiadau, a gellir cysylltu ag ef drwy ffonio 0300 200 4050. Hefyd mae gwybodaeth am gymhwysedd a hawliau ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

## PRESENOLDEB

Nod y cynlluniau LCA a GDLIC (AB) yw rhoi cymorth i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach cymwys, ac fel arfer byddant yn gofyn bod y myfyriwr yn bresennol mewn canolfan ddysgu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ganolfannau dysgu gadw at ganllawiau COVID-19 y Llywodraeth wrth gynllunio ar

[1] https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/media/198663/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-05-2019-w-pdf.pdf

gyfer derbyn a chefnogi myfyrwyr newydd, a myfyrwyr sy'n dychwelyd, ym mis Medi 2020, a disgwylir i ganolfannau dysgu barhau i weithredu eu polisïau absenoldeb/presenoldeb eu hunain.

O ran y myfyrwyr sy'n dysgu, gan gynnwys drwy'r broses dysgu cyfunol fel cyfuniad o ddysgu ar-lein a phresenoldeb corfforol, dylai canolfannau dysgu roi gwybodaeth sy'n cadarnhau eu presenoldeb i Gyllid Myfyrwyr Cymru fel y gellir rhyddhau taliadau cymwys. Gellir parhau i drin absenoldebau myfyrwyr am resymau megis salwch, hunanynysu, neu gau canolfan ddysgu oherwydd COVID-19, fel absenoldebau awdurdodedig, yn ôl disgresiwn y ganolfan ddysgu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau canllaw ar COVID-19 i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch eu defnyddio ar gyfer cynllunio at yr hydref: https://llyw.cymru/addysg-bellach-ac-uwch-coronafeirws.

**TALIADAU LCA SYDD WEDI EU HÔL-DDYDDIO**

O ran blwyddyn academaidd 2020/21, rydym yn ymestyn y cyfnod pryd y gallai ymgeisydd fod yn gymwys i gael taliadau LCA sydd wedi eu hôl-ddyddio. Gallai myfyrwyr cymwys newydd gael taliadau LCA sydd wedi eu hôl-ddyddio at ddechrau eu cwrs os bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cael eu cais o fewn 13 o wythnosau (yn lle 8 wythnos) i ddechrau'r cwrs hwnnw. Os bydd cais yn cyrraedd ar ôl 13 o wythnosau, ni fydd y myfyriwr ond yn gymwys i gael taliadau LCA sydd wedi eu hôl-ddyddio at y dyddiad pryd y daeth y cais i law Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Hefyd, gallai myfyrwyr cymwys, sy'n dychwelyd i astudio, gael taliadau LCA sydd wedi eu hôl-ddyddio at ddechrau'r cwrs y maent yn ei ddilyn yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, os bydd eu Cytundeb LCA wedi ei lofnodi/cytuno o fewn 13 o wythnosau i'w dyddiad dechrau. Os bydd myfyriwr cymwys sy'n dychwelyd yn llofnodi ei gytundeb LCA ar ôl 13 o wythnosau, ni fydd ond yn gymwys i gael taliadau LCA sydd wedi eu hôl-ddyddio at y dyddiad llofnodi y mae canolfan ddysgu'r myfyriwr hwnnw'n ei gadarnhau wrth Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae taliadau LCA yn parhau'n amodol ar p'un a yw Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cael cadarnhad bod y myfyriwr yn cymryd rhan mewn dysgu, a bod ei Gytundeb LCA wedi cael ei gytuno. Rydym yn dal i annog myfyrwyr a chanolfannau dysgu i gytuno ar eu Cytundeb LCA cyn gynted â phosibl.

Mae'n bwysig nodi bod pecynnau ymgeisio am yr LCA ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 wedi cael eu hargraffu cyn i'r argyfwng COVID-19 gael effaith, ac felly yn fersiwn brint y ffurflen LCA nodir mai 8 wythnos yw'r cyfnod cymwys ar gyfer cael taliadau sydd wedi eu hôl-ddyddio. Rydym yn gofyn i ganolfannau dysgu gynorthwyo drwy helpu i sicrhau bod pawb yn gwybod bod hyn wedi ei newid i 13 o wythnosau.

Bydd y newid hwn yn cael ei fonitro yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

**CYTUNDEBAU DYSGU LCA A GDLIC (AB)**

Mae canllawiau atodol ar gyfer rheoli a llofnodi cytundebau LCA a GDLIC (AB) ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21 ar gael drwy Borthol Canolfan Dysgu Cyllid Myfyrwyr Cymru. Ewch at y canllawiau i gael rhagor o wybodaeth.

**CATEGORI PRESWYL NEWYDD**

Mae'r categori caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol wedi cael ei gynnwys yn yr Atodlenni yn y cynlluniau LCA a GDLIC (AB) ar gyfer Cymru ym mlwyddyn academaidd 2020/21, ac mae hyn yn adeiladu ar y cymhwysedd sy'n bodoli eisoes yn y cynlluniau. Gallai myfyrwyr yn y categori hwn fod yn gymwys i gael cymorth, yn amodol ar fodloni'r holl feini prawf cymhwysedd eraill. Mae'r ffurflenni cais a'r canllawiau ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 wedi cael eu diweddaru i gynnwys y categori hwn.

**ASESIAD ARIANNOL O INCWM YR AELWYD – GDLIC (AB)**

Yn unol â chynllun GDLIC (AB) ar gyfer asesu incwm yr aelwyd, mae ffurflen gais a chanllawiau'r cynllun hwn ar gyfer 2020/21 wedi cael eu diweddaru i sicrhau bod ymgeiswyr (lle y bo hynny'n berthnasol) yn darparu manylion eu hincwm ochr yn ochr â manylion incwm eu rhieni i gael eu hasesu ar gyfer cael y cymorth priodol. O dan y cynllun GDLIC (AB), dim ond incwm uchaf yr ymgeisydd neu ei rieni a fydd yn cael ei ddefnyddio wrth bennu ei gymhwysedd a'i hawl i gael grant.

**YMHOLIADAU**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr LCA a/neu GDLIC (AB) neu'r hysbysiad hwn, cysylltwch â'r Is-adran Addysg Uwch yn Llywodraeth Cymru drwy e-bostio: isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais. Gellir lawrlwytho copi Cymraeg neu Saesneg o'r hysbysiad gwybodaeth hwn.